

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
Answers to Questions not reached in Plenary
09/07/2008

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cynnwys
Contents

- 1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Questions to Minister for Health and Social Services
- 2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a
Thrafnidiaeth
Questions to Deputy First Minister and Minister for Economy and Transport

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Questions to Minister for Health and Social Services

Single-sex Hospital Wards

Wardiau un Rhyw Mewn Ysbytai

Q2 Alun Davies: Will the Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's policy on single sex hospital wards? OAQ(3)0671(HSS) *Transferred for written answer.*

C2 Alun Davies: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar wardiau un rhyw mewn ysbytai? OAQ(3)0671(HSS) *Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig.*

The Minister for Health and Social Services (Edwina Hart): I recently announced that all new hospital developments would have single-sex accommodation to safeguard the privacy and dignity of patients. Additionally, any ward that is currently of mixed gender should be divided and should provide separate bathing and toilet facilities, with the exception of accident-and-emergency departments, emergency admission and critical care units.

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart): Cyhoeddais yn ddiweddar y bydd gan bob ysbyty newydd wardiau un rhyw er mwyn diogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion. Yn ogystal, bydd unrhyw ward sy'n gymysg ar hyn o bryd yn cael ei rhannu a bydd cyfleusterau ymolchi a thoiledau ar wahân yn cael eu darparu, ac eithrio adrannau damweiniau ac achosion brys, unedau derbyn brys ac unedau gofal critigol.

Atebwyd cwestiynau 3 a 4 yn y Cyfarfod Llawn.
Questions 3 and 4 were answered in Plenary.

Neonatal Care

Gofal Newyddenedigol

Q5 Lynne Neagle: Will the Minister make a statement on planned improvements to neonatal care in Wales? OAQ(3)0651(HSS) *Transferred for written answer.*

C5 Lynne Neagle: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gwelliannau sydd yn yr arfaeth ar gyfer gofal newyddenedigol yng Nghymru? OAQ(3)0651(HSS) *Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig.*

Edwina Hart: I have recently consulted clinicians on the neonatal services review undertaken by Health Commission Wales in 2005, and I am considering how best to strengthen neonatal services in the light of the responses to that consultation.

Edwina Hart: Yn ddiweddar, bûm yn ymgynghori â chlinigwyr ar yr adolygiad o wasanaethau newyddenedigol a gynhaliwyd gan Gomisiwn Iechyd Cymru yn 2005, ac yr wyf yn ystyried sut orau i gryfhau'r gwasanaethau newyddenedigol yn sgîl yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwnnw.

*Atebwyd cwestiynau 6 a 7 yn y Cyfarfod Llawn.
Questions 6 and 7 were answered in Plenary.*

Best Practice as Normal Practice

Q8 Alun Davies: What mechanisms are in place to enable hospitals and healthcare professionals to share best practice in order that it becomes common practice across Wales? OAQ(3)0652(HSS) *Transferred for written answer.*

Edwina Hart: Best practice is shared and promoted in many ways, most notably through our clinical advisory machinery and clinical governance arrangements, through the work of the National Leadership and Innovation Agency for Healthcare and our 1000 Lives campaign, through our six national service frameworks, and through the evidence-based guidance provided by organisations such as the National Institute for Health and Clinical Excellence and the National Patient Safety Agency.

*Atebwyd cwestiynau 9 i 11 yn y Cyfarfod Llawn.
Questions 9 to 11 were answered in Plenary.*

Community Hospitals

Q12 Brynle Williams: Will the Minister make a statement on the future management of community hospitals? OAQ(3)0634(HSS) *Transferred for written answer.*

Edwina Hart: Proposals for the management of community hospitals are set out in the consultation paper on proposals to change the structure of the national health service. The consultation ended on 25 June 2008 and I am now considering the responses.

*Atebwyd cwestiynau 13 i 15 yn y Cyfarfod Llawn.
Questions 1 to 15 were answered in Plenary.*

Arfer Gorau yn Arfer Cyffredin

C8 Alun Davies: Pa fecanweithiau sydd ar waith i alluogi ysbytai a gweithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd i rannu arfer gorau fel bo hynny'n dod yn arfer cyffredin ledled Cymru? OAQ(3)0652(HSS) *Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig.*

Edwina Hart: Caiff arfer gorau ei rannu a'i hyrwyddo mewn sawl ffordd, ond yn fwyaf arbennig drwy ein trefniadau cynghori clinigol a llywodraethu clinigol, drwy waith yr Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd a'n hymgyrch 1000 o Fywydau, drwy ein chwe fframwaith gwasanaeth cenedlaethol, a drwy'r canllawiau sy'n seiliedig ar dystiolaeth a ddarperir gan sefydliadau fel y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol ac Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion.

Ysbytai Cymunedol

C12 Brynle Williams: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y caiff ysbytai cymunedol eu rheoli yn y dyfodol? OAQ(3)0634(HSS) *Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig.*

Edwina Hart: Amlinellir cynigion ar sut i reoli ysbytai cymunedol yn y papur ymgynghori ar gynigion i newid strwythur y gwasanaeth iechyd gwladol. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 25 Mehefin 2008 ac yr wyf bellach yn ystyried yr ymatebion a gafwyd.

Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Questions to the Deputy First Minister and the Minister for Economy and Transport

Rail Transport

Q3 Huw Lewis: Will the Minister make a statement on the provision of rail transport in south-east Wales? OAQ(3)0636(ECT) *Transferred for written answer.*

The Deputy First Minister and Minister for Economy and Transport (Ieuan Wyn Jones): Our comprehensive investment programme is building a strong and efficient transport system. In south-east Wales, this includes the £7 million-worth funding package that I announced last month to improve the rail network of Cardiff and the Valleys corridor.

*Atebwyd cwestiwn 4 yn y Cyfarfod Llawn.
Question 4 was answered in Plenary.*

Dualling the Heads of the Valleys Road

Q5 Huw Lewis: Will the Minister make a statement on the timetable for the dualling of the Heads of the Valleys road? OAQ(3)0641(ECT) *Transferred for written answer.*

The Deputy First Minister: An announcement on the next stage of the A465 improvements will be made when the re-prioritising of the trunk road forward programme is published.

*Atebwyd cwestiynau 6 i 10 yn y Cyfarfod Llawn.
Questions 6 to 10 were answered in Plenary.*

Swyddi o Ansawdd Uchel

C11 Paul Davies: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddiogelu swyddi o ansawdd uchel yng Nghymru? OAQ(3)0642(ECT)

Y Dirprwy Brif Weinidog: Yr ydym yn cyflwyno ystod o fentrau i greu mwy o swyddi a swyddi gwell a diogelu'r swyddi o

Trafnidiaeth Rheilffyrdd

C3 Huw Lewis: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarpariaeth trafndiaeth rheilffyrdd yn y de-ddwyrain? OAQ(3)0636(ECT) *Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig.*

Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones): Mae ein rhaglen fuddsoddi gynhwysfawr yn adeiladu system drafndiaeth gref ac effeithlon. Yn y de ddwyrain, mae hyn yn cynnwys y pecyn gwerth £7 miliwn a gyhoeddais y mis diwethaf i wella rhwydwaith rheilffyrdd Caerdydd a'r Cymoedd.

Deuoli Ffordd Blaenau'r Cymoedd

C5 Huw Lewis: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr amserlen ar gyfer deuoli ffordd Blaenau'r Cymoedd? OAQ(3)0641(ECT) *Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig.*

Y Dirprwy Brif Weinidog: Gwneir cyhoeddiad am gam nesaf y gwaith o wella'r A465 pan gyhoeddir y ddogfen sy'n ailflaenoriaethu blaenraglen y cefnffyrdd.

High-Quality Jobs

Q11 Paul Davies: Will the Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's plans to protect high-quality jobs in Wales? OAQ(3)0642(ECT)

The Deputy First Minister: We are delivering a range of initiatives both to create more and better jobs and to support existing

ansawdd uchel sydd eisoes yn bodoli. Mae hyn yn cynnwys mesurau arianol a mesurau eraill a ddarperir drwy'r cynllun cymorth hyblyg i fusnes.

Improving Transport Links

Q12 Alun Davies: Will the Minister make a statement on how transport links can be improved across Mid and West Wales? OAQ(3)0638(ECT)

The Deputy First Minister: Our continued investment in strategic road, rail and bus networks will build upon the improvements in transport links across Mid and West Wales.

European Funding

Q13 Rosemary Butler: What steps is the Welsh Assembly Government taking to ensure that regeneration programmes in Wales make full use of the next round of European funding? OAQ(3)0629(ECT)

The Deputy Minister for Regeneration (Leighton Andrews): The 2007-13 programmes will be guided by strategic frameworks, which have been developed in close partnership with all relevant stakeholder groups across the programme areas. Their aim is to support integrated approaches to long-term regeneration, which will benefit the most deprived communities and will support the development of vibrant local economies.

Improved Rail Links

Q14 Sandy Mewies: What is the Welsh Assembly Government doing to ensure that improved rail links are available in north Wales? OAQ(3)0634(ECT)

The Deputy First Minister: The proposed December 2008 timetables for Virgin Trains and Arriva Trains Wales bring major benefits to north Wales. We have been working with the train operating companies, the consortia and the Department for Transport to achieve that.

high-quality employment. That includes financial and other measures delivered through flexible support for business.

Gwella Cysylltiadau Trafnidiaeth

C12 Alun Davies: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y gellir gwella cysylltiadau trafndiaeth ledled Canolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(3)0638(ECT)

Y Dirprwy Brif Weinidog: Bydd ein buddsoddiad parhaus yn y rhwydweithiau ffyrdd, rheilffyrdd a bws strategol yn adeiladu ar y gwelliannau a wnaed i'r cysylltiadau trafndiaeth ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Cyllid Ewrop

C13 Rosemary Butler: Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod rhaglenni adfywio yng Nghymru yn gwneud defnydd llawn o'r rownd nesaf o gyllid Ewrop? OAQ(3)0629(ECT)

Y Dirprwy Weinidog dros Adfywio (Leighton Andrews): Bydd rhaglenni 2007-13 yn cael eu llywio gan fframweithiau strategol, sydd wedi'u datblygu mewn partneriaeth agos â'r holl grwpiau rhanddeiliaid ym mhob un o feysydd y rhaglenni. Eu nod yw cefnogi dulliau gweithredu integredig ar gyfer adfywio hirdymor er lles y cymunedau mwyaf difreintiedig, a helpu i ddatblygu economïau lleol llewyrchus.

Gwella Cysylltiadau Rheilffyrdd

C14 Sandy Mewies: Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i sicrhau bod cysylltiadau rheilffyrdd gwell ar gael yn y gogledd? OAQ(3)0634(ECT)

Y Dirprwy Brif Weinidog: Mae amserlenni arfaethedig Trenau Virgin a Threnau Arriva Cymru ar gyfer mis Rhagfyr 2008 yn dod â manteision sylweddol i'r gogledd. Buom yn gweithio gyda'r cwmnïau trên, y consortia a'r Adran Drafndiaeth i gyflawni hyn.

Economic Priorities

Q15 Nick Ramsay: Will the Minister outline his economic priorities for the next six months? OAQ(3)0660(ECT)

The Deputy First Minister: My priorities are flexible support for business, research and commercialisation, strategic regeneration, and a progressive agenda on transport. We will also be taking forward major projects such as those at St Athan and Amazon, and helping businesses, particularly manufacturers, to take advantage of the change in exchange rates to boost export sales.

Blaenoriaethau Economaidd

C15 Nick Ramsay: A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei flaenoriaethau economaidd ar gyfer y chwe mis nesaf? OAQ(3)0660(ECT)

Y Dirprwy Brif Weinidog: Fy mlaenoriaethau yw cymorth hyblyg i fusnes, gwaith ymchwil a masnacheiddio, adfywio strategol, ac agenda flaengar ar gyfer trafndiaeth. Byddwn hefyd yn bwrw ymlaen â phrosiectau mawr fel rhai Sain Tathan ac Amazon, ac yn helpu busnesau, yn enwedig gweithgynhyrchwyr, i fanteisio ar y newidiadau yn y cyfraddau cyfnewid er mwyn hybu gwerthiannau allforio.